ASESIAD EFFAITH

# Adroddiadau ar sefydlogrwydd y farchnad: asesiad effaith integredig

Cychwyn adran 144B o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, a datblygu rheoliadau ategol a chod ymarfer / canllawiau statudol.

Cyhoeddwyd gyntaf: 27 Ionawr 2021

Diweddarwyd ddiwethaf: 1 Chwefror 2021

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/adroddiadau-ar-sefydlogrwydd-y-farchnad-asesiad-effaith-integredig-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

# Cynnwys


Adran 1. Pa gamau gweithredu y mae Llywodraeth Cymru yn eu hystyried a pham?

Y tymor hir

Atal

Integreiddio

Cydweithio

Cyfranogiad

Mecanwaith

Casgliad


# Adran 1. Pa gamau gweithredu y mae Llywodraeth Cymru yn eu hystyried a pham?

Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig cychwyn adran 144B o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (a fewnosodwyd gan adran 56 o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru) 2016. Mae adran 144B yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol baratoi a chyhoeddi adroddiadau ar sefydlogrwydd y farchnad (yr Adroddiadau), gan gynnwys asesiad o ddigonolrwydd gofal a chymorth a sefydlogrwydd y farchnad ar gyfer gwasanaethau sy'n cael eu rheoleiddio yn ardal yr awdurdod lleol. Bydd rheoliadau'n cael eu gwneud o dan a.144B sy'n ymdrin â'r cyfnod asesu, materion sydd i'w trafod yn yr adroddiad mewn perthynas â


**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/adroddiadau-ar-sefydlogrwydd-y-farchnad-asesiad-effaith-integredig-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

gwasanaethau rheoleiddiedig, a’r dyddiad erbyn pryd y mae’n rhaid cyhoeddi’r Adroddiadau; a byddwn hefyd yn diwygio Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth (Cymru) 2015 fel bod rhaid paratoi a chyhoeddi Adroddiadau ar ôl troed rhanbarthol, gydag awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol yn gweithio gyda’i gilydd drwy’r saith Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Bydd y rheoliadau’n cael eu hategu gan god ymarfer ar gyfer awdurdodau lleol, a chanllawiau statudol ar drefniadau partneriaeth ar gyfer awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol.

Mae’r camau gweithredu hyn yn rhan o raglen Llywodraeth Cymru, a ddechreuodd gyda Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy (2010), i ddiogelu sefydlogrwydd a chynaliadwyedd y ddarpariaeth gofal cymdeithasol yn y tymor hwy yng Nghymru. Conglfeini’r rhaglen hon yw Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (‘Deddf 2014’) a Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 (‘Deddf 2016’), ac mae’r camau gweithredu hyn yn rhoi adran 144B o Ddeddf 2014 ar waith, a fydd yn cael ei mewnosod drwy adran 56 o Ddeddf 2016.

# Y tymor hir

Rydyn ni’n cynnig mynnu bod Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn cynhyrchu Adroddiadau bob pum mlynedd, gyda’r adroddiadau cyntaf i gael eu cyhoeddi erbyn 1 Mehefin 2022. Mae hyn yn cyd-fynd â chylch etholiadol llywodraeth leol, ac yn rhoi’r Adroddiadau mewn cylch cynllunio a chomisiynu strategol sy’n cynnwys asesiadau anghenion poblogaeth rhanbarthol (PNA) a chynlluniau ardal. Mae PNA yn darparu data am yr angen a’r galw am ofal a chymorth yn ardal y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, a’r math a lefel y gwasanaethau sydd eu hangen (h.y. data ar yr ochr galw), tra bydd Adroddiadau yn darparu asesiad o ddigonolrwydd y gofal a’r ddarpariaeth ac o sefydlogrwydd y farchnad ar gyfer gwasanaethau sy’n cael eu rheoleiddio (data ar yr ochr gyflenwi). Gyda’i gilydd, byddant yn helpu i lywio a siapio’r cynllun ardal strategol ar gyfer y rhanbarth.

Bydd yr Adroddiadau’n canolbwyntio nid yn unig ar a yw’r ddarpariaeth bresennol yn ddigonol i ddiwallu’r galw a nodir yn y PNA, ac a yw’r farchnad bresennol ar gyfer gwasanaethau a reoleiddir yn sefydlog, ond hefyd ar gynaliadwyedd y ddarpariaeth a fesurir yn erbyn y galw a ragwelir yn y dyfodol a disgwyliadau defnyddwyr gwasanaeth. Ymysg y ‘materion’ rydym yn cynnig eu

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/adroddiadau-ar-sefydlogrwydd-y-farchnad-asesiad-effaith-integredig-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

nodi yn y rheoliadau mewn perthynas â gwasanaethau sy’n cael eu rheoleiddio y mae tueddiadau ac effaith presennol neu sy’n datblygu neu effaith debygol ar ddigonolrwydd, ansawdd neu sefydlogrwydd y ddarpariaeth o wasanaethau; unrhyw heriau sylweddol o ran digonolrwydd, ansawdd a sefydlogrwydd y ddarpariaeth ar hyn o bryd neu yn y dyfodol; ac effaith comisiynu a chyllido ar ddigonolrwydd, ansawdd a sefydlogrwydd gwasanaethau sy’n cael eu rheoleiddio sy’n darparu gofal a chymorth, gan gynnwys dulliau rhanbarthol a defnyddio cyllid ar y cyd. Y bwriad yw y bydd y rhain yn galluogi Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol i gymryd golwg fwy strategol ar y ddarpariaeth gofal a chymorth dros y pum mlynedd nesaf, ac yn eu helpu i siapio ac ail-gydbwyso marchnadoedd gofal cymdeithasol (‘eu diogelu ar gyfer y dyfodol’).

Mae’r gwaith hwn wedi cael ei wneud ochr yn ochr â pharatoi ymgynghoriad Papur Gwyn ar ailgydbwyso gofal a chymorth, gan gynnwys cynigion ar gyfer deddfwriaeth newydd i wella trefniadau ar gyfer gofal a chymorth a chryfhau gweithio mewn partneriaeth i gyflawni’r weledigaeth a nodir yn Neddf 2014. Mae hyn yn cynnwys gosod fframwaith cenedlaethol clir i gefnogi gwasanaethau i gael eu cynllunio’n rhanbarthol a’u darparu’n lleol, ac ar gyfer cryfhau trefniadau partneriaeth. Bydd dadansoddi’r Adroddiadau a’r cylch nesaf o PNA yn helpu i fwydo i mewn i’r dull fframwaith cenedlaethol ehangach hwn yn ystod tymor nesaf Senedd Cymru.

# Atal

Mae atal ac ymyrryd yn gynnar yn egwyddorion sylfaenol yn Neddf 2014, sy’n ceisio cynyddu gwasanaethau ataliol yn y gymuned er mwyn sicrhau’r lleiaf posibl o gynnydd o ran angen critigol. Bydd yr Adroddiadau yn ei gwneud yn ofynnol i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol asesu digonolrwydd a chynaliadwyedd gwasanaethau ataliol. Nid yw’r gwasanaethau hyn yn cael eu rheoleiddio, sy’n golygu nad oes gofyniad cyfreithiol yn adran 144B i asesu sefydlogrwydd y farchnad ar eu cyfer, ond rydym yn bwriadu defnyddio’r cod ymarfer i annog Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol i gymryd golwg gyfannol ar eu marchnadoedd gofal cymdeithasol wrth ymgymryd â’u Hadroddiadau.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/adroddiadau-ar-sefydlogrwydd-y-farchnad-asesiad-effaith-integredig-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Integreiddio

Ar hyn o bryd, mae'r rhan fwyaf o ofal cymdeithasol yn cael ei gomisiynu gan awdurdodau lleol, er bod peth yn cael ei gomisiynu ar y cyd â'r GIG (e.e. gofal preswyl gyda nyrsio) ac mae rhywfaint o hunan-ariannu neu'n cael ei drefnu drwy Daliadau Uniongyrchol. Mae'r Adroddiadau yn gyfle i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol fabwysiadu dull mwy integredig a chydweithredol o gynllunio, comisiynu a darparu gwasanaethau gofal a chymorth gan gynnwys gofal preswyl a gofal cartref. Maent yn cefnogi'r dull rydym wedi'i fabwysiadu i ddatblygu rôl Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol fel partneriaethau rhanbarthol strategol, a byddant yn caniatáu ar gyfer dulliau mwy integredig a strategol o gomisiynu gwasanaethau sy'n costio'n ddrud ac yn fychan o ran nifer, fel gwasanaethau arbenigol ar gyfer pobl anabl, neu lety diogel i blant ag anghenion cymhleth. Dylai'r Adroddiadau helpu i hwyluso'r defnydd o gyllidebau cyfun, sydd eisoes yn ofynnol o dan Reoliadau Trefniadau Partneriaeth (Cymru) 2015, a hefyd ddulliau gweithredu newydd sy'n datblygu fel y dull 'Dim Drws Anghywir' a argymhellwyd gan Gomisiynydd Plant Cymru.

## Cydweithio

Mae gan Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol aelodaeth eang, sy'n cynnwys asiantaethau statudol (awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol) a rhanddeiliaid eraill gan gynnwys cynrychiolwyr dinasyddion a darparwyr a'r trydydd sector. Wrth ddatblygu ein cynigion, rydym wedi gweithio gyda grŵp cyfeirio bach gan gynnwys Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, y Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol, Consortiwm Comisiynu Plant Cymru ac Arolygiaeth Gofal Cymru. Roedd y cynigion yn destun ymgynghoriad cyhoeddus rhwng 16 Medi a 25 Tachwedd 2020, a chafodd negeseuon allweddol yr ymgynghoriad eu hystyried gan y grŵp cyfeirio cyn i'r cod ymarfer a'r canllawiau statudol gael eu diwygio a'u hailysgrifennu'n sylweddol. Mae'r holl ddull o gynhyrchu Adroddiadau yn seiliedig ar gydweithio rhwng awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol, gan weithio drwy'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/adroddiadau-ar-sefydlogrwydd-y-farchnad-asesiad-effaith-integredig-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

# Cyfranogiad

Mae'r rheoliadau sy'n llywodraethu PNA eisoes yn ei gwneud yn ofynnol i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol ymgysylltu â dinasyddion a darparwyr gofal a chymorth wrth eu paratoi. Yn anffodus, nid yw'r pŵer i wneud rheoliadau yng nghyswllt Adroddiadau yn caniatáu i ni gynnwys hyn mewn rheoliadau, ond byddwn yn defnyddio'r cod ymarfer a'r canllawiau statudol i wneud hyn yn ofyniad ar gyfer yr Adroddiadau hefyd. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i ystod eang o ddinasyddion, gan gynnwys plant a phobl ifanc, fod yn rhan o'r asesiadau digonolrwydd a sefydlogrwydd y farchnad, a bydd gan eu cynrychiolwyr ar y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol rôl i'w chwarae wrth ystyried yr adroddiad terfynol. Bydd yr un peth yn wir am ddarparwyr ar draws y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector, gan gynnwys y Fforymau Gwerth Cymdeithasol rhanbarthol. Bydd yn ofynnol i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol baratoi eu Hadroddiadau yn unol ag egwyddorion Deddf 2014, sy'n cynnwys cyd-gynhyrchu a rhoi mwy o lais a rheolaeth i ddinasyddion.

# Mecanwaith

Mae'r cynigion hyn yn ymwneud â chychwyn a gweithredu deddfwriaeth sydd eisoes yn y llyfr statudau, llunio rheoliadau, a llunio cod ymarfer a chanllawiau statudol i gefnogi'r broses o'u rhoi ar waith gan Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol.

Ystyriwyd tri opsiwn wrth ddatblygu'r cynigion hyn:

- opsiwn 1 – cynnal y sefyllfa bresennol, h.y. peidio â chychwyn yr adrannau hyn o'r Deddfau ar hyn o bryd, ac felly peidio â rhoi dyletswydd ffurfiol ar awdurdodau lleol i baratoi adroddiadau ar sefydlogrwydd y farchnad
- opsiwn 2 – cychwyn adran 56 o Ddeddf 2016 a gwneud rheoliadau dan adran 144B o Ddeddf 2014, sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol baratoi adroddiadau ar sefydlogrwydd y farchnad. Byddai hyn yn cael ei ategu gan god ymarfer ar gyfer awdurdodau lleol
- opsiwn 3 – fel opsiwn 2, ond hefyd diwygio Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth (Cymru) 2015 fel ei bod yn ofynnol i awdurdodau lleol a

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/adroddiadau-ar-sefydlogrwydd-y-farchnad-asesiad-effaith-integredig-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Byrddau Iechyd Lleol baratoi adroddiadau ar sefydlogrwydd y farchnad ar gyfer eu rhanbarth, gan weithio drwy'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol. Yn ogystal â chod ymarfer, byddai canllawiau statudol ar drefniadau partneriaeth hefyd yn cael eu cyhoeddi

Mae costau, manteision a risgiau pob un o'r opsiynau hyn wedi'u nodi yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, sy'n rhan o'r Memorandwm Esboniadol i Reoliadau Trefniadau Partneriaeth (Diwygio) a Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Adroddiadau ar Sefydlogrwydd y Farchnad) (Cymru) 2021, ac a fydd yn cael eu cyhoeddi pan fydd y rheoliadau'n cael eu gosod gerbron Senedd Cymru ym mis Ionawr 2021.

# Casgliad

## 7.1 Sut y mae pobl y mae'r cynnig yn fwyaf tebygol o effeithio arnynt wedi'u cynnwys yn y gwaith o'i ddatblygu?

Mae adran 144B o Ddeddf 2014 yn cynnwys gofyniad i Weinidogion Cymru ymgynghori ag 'unrhyw bersonau sy'n briodol yn eu barn hwy' cyn gwneud rheoliadau o dan yr adran honno. Sefydlwyd grŵp cyfeirio bychan i ddatblygu rheoliadau drafft a chod ymarfer ategol a chanllawiau statudol, gyda mewnbwn gan y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, y Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol, Consortiwm Comisiynu Plant Cymru ac Arolygiaeth Gofal Cymru. Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus rhwng 16 Medi a 25 Tachwedd 2020. Oherwydd cyfyngiadau Covid-19, a phwysau gwaith sy'n gysylltiedig â Covid, nid oedd y broses ymgynghori mor eang ag y byddem wedi'i hoffi, ond roedd yr ymatebion a gafwyd (19 i gyd) yn gynhwysfawr ac yn cynnwys ystod eang o randdeiliaid gan gynnwys chwech o'r saith Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru, Comisiynydd Plant Cymru, Comisiynydd y Gymraeg, sefydliadau darparwyr, y trydydd sector ac undebau llafur. Trafodwyd canfyddiadau'r ymgynghoriad gyda'r grŵp cyfeirio, a chafodd y cod ymarfer ei ddiwygio a'i ailysgrifennu'n sylweddol yng ngoleuni'r sylwadau a dderbyniwyd.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/adroddiadau-ar-sefydlogrwydd-y-farchnad-asesiad-effaith-integredig-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Rhaid cynhyrchu'r adroddiadau cyntaf ar sefydlogrwydd y farchnad erbyn 1 Mehefin 2022, ac mae gofyniad yn y cod ymarfer a'r canllawiau i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol ymgysylltu â dinasyddion a darparwyr wrth gynnal yr asesiadau digonolrwydd a sefydlogrwydd y farchnad.

## 7.2 Beth yw'r effeithiau cadarnhaol a negyddol mwyaf arwyddocaol?

O ganlyniad i'r Rheoliadau hyn, y cod ymarfer a'r canllawiau statudol, bydd awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol, drwy weithio gyda'u partneriaid yn y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, yn paratoi ac yn cyhoeddi saith Adroddiad rhanbarthol ar Sefydlogrwydd y Farchnad erbyn 1 Mehefin 2022 a phob pum mlynedd ar ôl hynny.

Bydd yr adroddiadau cyhoeddedig hyn yn cynnwys asesiad o ddigonolrwydd y ddarpariaeth gofal a chymorth ar draws ardal y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, ac asesiad o sefydlogrwydd a chynaliadwyedd y farchnad ar gyfer gwasanaethau sy'n cael eu rheoleiddio. Ynghyd â'r asesiad rhanbarthol o anghenion y boblogaeth, bydd yr Adroddiadau'n helpu i lywio a llunio'r rownd nesaf o Gynlluniau Ardal, a gyhoeddir erbyn 1 Ebrill 2023. Felly, dylai Adroddiadau gael effaith gadarnhaol uniongyrchol ar benderfyniadau cynllunio a chomisiynu lleol a rhanbarthol.

Bydd yr adroddiadau hefyd yn cael eu cyflwyno i Weinidogion Cymru, ac yn helpu i greu darlun cenedlaethol o ddigonolrwydd y ddarpariaeth gofal a chymorth a sefydlogrwydd a chynaliadwyedd y farchnad gofal cymdeithasol.

Os paratoir yr Adroddiadau yn effeithiol yn unol â'r cod ymarfer a'r canllawiau statudol, byddant yn helpu i ganfod ymhle y mae bylchau yn y ddarpariaeth gofal a chymorth, gan alluogi comisiynwyr gofal cymdeithasol (awdurdodau lleol yn bennaf) a darparwyr i wneud penderfyniadau gwybodus am ddarpariaeth a buddsoddiad yn y dyfodol. Yn yr un modd, dylai Adroddiadau helpu yn y pen draw i wneud marchnadoedd gofal cymdeithasol yn fwy sefydlog a chynaliadwy, a fydd yn ei dro yn sicrhau bod y math a'r lefel o wasanaethau gofal a chymorth sydd ar gael mewn cymunedau lleol yn diwallu anghenion a disgwyliadau unigolion mewn ffyrdd sy'n eu galluogi i gyflawni eu canlyniadau llesiant

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/adroddiadau-ar-sefydlogrwydd-y-farchnad-asesiad-effaith-integredig-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

personol. Bydd Adroddiadau yn helpu i ddiogelu marchnadoedd ar gyfer gofal cymdeithasol yn y dyfodol (yn enwedig gwasanaethau a reoleiddir) drwy ystyried tueddiadau, heriau, cyfleoedd a risgiau.

Bydd yr Adroddiadau'n helpu i ddal awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol yn atebol i'r boblogaeth a wasanaethir ganddynt, drwy ddarparu tryloywder o ran y ffordd y mae adnoddau'n cael eu defnyddio a sut mae penderfyniadau ynghylch darparu gwasanaethau'n cael eu gwneud.

Dylai'r Adroddiadau hefyd helpu i wneud cyfraniad cadarnhaol at ddatblygu'r gweithlu gofal cymdeithasol, gan y bydd effaith cyfansoddiad a nodweddion y gweithlu gofal cymdeithasol yn ffactor pwysig wrth benderfynu ar ddigonolrwydd y gofal a'r cymorth a ddarperir yn ardal y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Dylai hyn gynnwys maint a natur unrhyw ddiffyg mewn niferoedd mewn unrhyw sector penodol, ac unrhyw risgiau neu heriau yn awr neu a ragwelir yn y dyfodol. Bydd hefyd angen i'r asesiad ystyried effaith recriwtio, datblygu a hyfforddi'r gweithlu gofal cymdeithasol ar ddarparu gofal a chymorth, a nodi unrhyw fylchau mewn sgiliau, gan gynnwys lle mae prinder staff sydd wedi'u hyfforddi'n briodol i ddarparu modelau penodol o ofal (er enghraifft, dulliau gweithredu ar sail trawma o ran gweithio gyda phlant mewn gofal, neu ddulliau nyrsio mewn cartrefi gofal i oedolion sy'n cynnwys darpariaeth nyrsio).

Dylai'r Adroddiadau gael effaith gadarnhaol ar ailgydbwyso'r farchnad gofal cymdeithasol a chreu sylfaen fwy amrywiol o ddarparwyr gan ganolbwyntio'n benodol ar werth cymdeithasol. Byddant yn helpu'n arbennig i ddatblygu dulliau gwerth cymdeithasol o gomisiynu a chaffael, gan gynnwys datblygu mentrau cymdeithasol, mentrau cydweithredol a darpariaeth trydydd sector, gan helpu awdurdodau lleol i gyflawni eu dyletswydd o dan adran 16 o Ddeddf 2014. Bydd y gofyniad i gynhyrchu'r Adroddiadau ar sail ôl-troed rhanbarthol drwy Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn helpu i sicrhau y bydd dull integredig yn cael ei ddefnyddio i gomisiynu a darparu gwasanaethau gofal a chymorth. Bydd hyn yn arbennig o bwysig pan fydd gwasanaethau'n cael eu comisiynu ar y cyd gan awdurdodau lleol a'r GIG (e.e. gofal preswyl gyda nyrsio, neu wasanaethau ailalluogi ar gyfer y rhai sy'n dychwelyd adref o'r ysbyty); ond y gobaith yw y byddant hefyd yn annog ac yn ysgogi dulliau mwy arloesol a rennir, efallai ar sail ranbarthol, megis datblygu llety diogel i blant ag anghenion cymhleth. Dylai'r Adroddiadau helpu i ddarparu gofal a chymorth cofleidiol mwy holistaidd, er

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/adroddiadau-ar-sefydlogrwydd-y-farchnad-asesiad-effaith-integredig-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

mwyn diwallu'r ystod o anghenion iechyd, gofal cymdeithasol a llesiant sydd gan bobl. (Bydd hyn yn cyfrannu at y nod llesiant cenedlaethol o Gymru iachach.)

Mae'n bosibl y bydd manteision o ran darpariaeth yn yr iaith Gymraeg, o ran bod yn rhaid i'r Adroddiadau asesu digonolrwydd y gofal a'r cymorth a ddarperir drwy gyfrwng y Gymraeg a'r farchnad ar gyfer gwasanaethau sy'n cael eu rheoleiddio sy'n cael eu darparu yn Gymraeg. Gobeithir y bydd hyn yn ysgogi twf darpariaeth newydd i ddiwallu'r angen a'r galw a ganfuwyd. (Bydd hyn yn cyfrannu at y nodau llesiant cenedlaethol, sef Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu a Chymru sy'n fwy cyfartal.)
Yn gyffredinol, drwy helpu i greu gwell dealltwriaeth o sut mae'r cyflenwad yn cyd-fynd â'r angen a'r galw, a natur marchnadoedd lleol a rhanbarthol ar gyfer gofal cymdeithasol, dylai Adroddiadau gael effaith gadarnhaol o ran adeiladu sector gofal a chymorth cytbwys sy'n diwallu anghenion penodedig poblogaethau lleol ledled Cymru – gan hyrwyddo nod Deddf 2014 y dylai pob unigolyn sydd angen gofal a chymorth, a phob gofalwr sydd angen cymorth, gael mynediad at y gwasanaethau sydd eu hangen arnynt i gyflawni eu nodau llesiant. (Bydd hyn yn cyfrannu at y nod llesiant cenedlaethol o Gymru iachach.)

## 7.3 Gan ystyried yr effeithiau a nodwyd, sut bydd y cynnig yn:

- cyfrannu cymaint â phosibl at ein hamcanion llesiant a'r saith nod llesiant; a/neu'n
- osgoi, lleihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol?

Fel y nodir uchod, bydd effeithiau arfaethedig yr Adroddiadau'n cyfrannu'n benodol at y nodau llesiant canlynol:

- Cymru iachach
- Cymru sy'n fwy cyfartal
- Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu

Bydd yr Adroddiadau'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol gydweithio, gyda'u partneriaid yn y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/adroddiadau-ar-sefydlogrwydd-y-farchnad-asesiad-effaith-integredig-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

i asesu dau faes a allai o bosibl gael effeithiau negyddol ar fywydau rhai o'r bobl fwyaf agored i niwed yng Nghymru: i ba raddau y mae darpariaeth gofal a chymorth yn ddigonol i ddiwallu'r galw; ac i ba raddau y mae marchnadoedd gofal cymdeithasol yn sefydlog ac yn gynaliadwy. Mae'n rhaid i'r Adroddiadau asesu tueddiadau, heriau a risgiau, a bydd hefyd yn nodi cyfleoedd ar gyfer siapio ac ail-gydbwyso'r farchnad gofal cymdeithasol gyffredinol. Dylai hyn helpu awdurdodau lleol, y GIG a phartneriaid perthnasol eraill i ganfod bylchau a meysydd sydd angen rhagor o fuddsoddiad, ac i liniaru'r risgiau i sefydlogrwydd y farchnad. Er na fydd yr Adroddiadau'n cyflawni hyn ar eu pen eu hunain, mae ganddynt y potensial i fod yn arf defnyddiol i helpu i gyflawni nodau Deddf 2014.

## 7.4 Sut y caiff effaith y cynnig ei monitro a'i gwerthuso wrth iddo fynd rhagddo ac ar ôl iddo gael ei gwblhau?

Rhaid cyflwyno'r Adroddiadau i Weinidogion Cymru pan gânt eu cwblhau. Disgwylir yr adroddiadau cyntaf erbyn 1 Mehefin 2022. Bydd Llywodraeth Cymru ac Arolygiaeth Gofal Cymru yn defnyddio'r adroddiadau, ynghyd â ffynonellau data a gwybodaeth berthnasol arall, i greu trosolwg cenedlaethol o ddigonolrwydd gofal a chymorth, ac o siâp a sefydlogrwydd y farchnad ar gyfer gwasanaethau sy'n cael eu rheoleiddio a gwasanaethau eraill yng Nghymru. Bydd yr Adroddiadau'n cyfrannu at bolisi Llywodraeth Cymru ar gomisiynu, darparu adnoddau ac ail-lunio gofal a chymorth, helpu Llywodraeth Cymru ac Arolygiaeth Gofal Cymru i ddatblygu dull cymesur a phriodol o oruchwylio'r farchnad, a chyfrannu at drafodaethau rhwng Llywodraeth Cymru a Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol ynghylch eu cynlluniau ardal strategol.
Bydd Adroddiadau'n cael eu hadolygu'n flynyddol, a rhaid i gynlluniau diwygiedig (neu adendwm i gynlluniau presennol) hefyd gael eu cyflwyno i Weinidogion Cymru pan fydd newidiadau'n cael eu gwneud o ganlyniad i'r adolygiadau hyn. Bydd yr hyn a ddysgir o'r rownd gyntaf o asesiadau, ac o'r adolygiadau blynyddol, yn cael ei ddefnyddio i lunio cylchoedd dilynol.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/adroddiadau-ar-sefydlogrwydd-y-farchnad-asesiad-effaith-integredig-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Ynghylch y ddogfen hon

Mae'r ddogfen hon yn gopi o'r dudalen we **Adroddiadau ar sefydlogrwydd y farchnad: asesiad effaith integredig** a lawrlwythwyd.

Ewch i **https://llyw.cymru/adroddiadau-ar-sefydlogrwydd-y-farchnad-asesiad-effaith-integredig-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch; darllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/adroddiadau-ar-sefydlogrwydd-y-farchnad-asesiad-effaith-integredig-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.